



## Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: 4 Mehefin 2015

Amser: 10:00y.b. tan hanner dydd

Lleoliad: Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys,  
Ystafell SCC003

### Yn bresennol:-

|                 |  |
|-----------------|--|
| NH (Cadeirydd)  | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| AL              | Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth HDP                                       |
| JJ              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| MBr (cofnodion) | Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg - HDP                                 |
| MB              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| DT              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| PR              | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)  |
| PL              | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)  |
| MRB             | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys   |
| BS              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| NM              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| HL              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| NC              | Ymgynghorydd Annibynnol  |
| AJ              | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau                                   |
| CG              | Cydlynnydd Unigolion Coll a Iechyd Meddwl<br>(ar gyfer y cyflwyniad yn unig) |

### Eitem 1 Ymddiheuriadau:-

|    |  |
|----|--|
| PS | Ymgynghorydd Annibynnol                    |
| BH | Ymgynghorydd Annibynnol                    |
| AP | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau |

### Eitem 2 Cofnodion/Camau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol.

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015 yn gofnod gwir a chywir.

**Eitem 2a Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu o'r cofnodion diwethaf.**

|                   |  |                           |
|-------------------|--|---------------------------|
| Cam<br>Gweithredu | Bydd pecynnau recriwtio newydd yn cael eu trafod fel rhan o'r prif agenda - eitem 8. | NH<br>Rhyddhawyd yr eitem |
|-------------------|--|---------------------------|

**Nodyn:- Cyflwynodd NH AL i'r grŵp, a hefyd AJ o SCHTh.**

**Eitem 3 Cyflwyniad gan y Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg**

Rhoddodd AL drosolwg o'i rôl ac ychydig o'i chefnidir i'r grŵp.

Esboniodd mai'r ffocws cyfredol fyddai recriwtio aelodau newydd ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, ac ail ddrafftio'r cylch gorchwyl. Gofynnodd AL i bawb am fewnbwn.

Awgrymodd AL 'ddiwrnod i ffwrdd' i'w drefnu pan fyddai'r aelodau newydd o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi ymuno â'r grŵp i ganiatáu ar gyfer cyflwyniadau, yn ogystal â chyflwyno'r cylch gorchwyl newydd, a oedd yn cael ei ddiweddarau.

**Cam gweithredu:- AL i roi ei manylion cyswllt hi ac AJ i JJ.**

Soniodd pob aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol am eu cefndir a'u diddordeb penodol.

**Eitem 4 Cyflwyniad ar y Prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl**

Rhoddodd CG gyflwyniad mewn perthynas â'r peilot brysbennu iechyd meddwl. Ers cychwyn y brysbennu iechyd meddwl nôl ym mis Ionawr 2015, mae carchariadau A136 yn Nyfed-Powys wedi gostwng 53%.

Gofynnod NM, 'Sut ydyn ni'n ymdrin â phobl sy'n fyddar neu'n dioddef sefyllfa trallod meddwl?'

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r mater hwn, ac awgrymwyd y gellir codi'r cwestiwn hwn mewn gweithdy iechyd meddwl.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymwybyddiaeth anabledd. Awgrymodd HL y dylid cynnwys ymwybyddiaeth anabledd fel rhan o hyfforddiant cychwynol yr heddlu.

**Cam gweithredu:- CG i drafod sut y byddai'r tîm brysbennu iechyd meddwl yn cyfathrebu ag unigolyn byddar yn y gweithdy iechyd meddwl nesaf.**

**Cam gweithredu:- MBr i ddsbarthu'r cyflwyniad brysbennu iechyd meddwl i'r grŵp.**

**Cam gweithredu:- BS i roi manylion cyswllt ei gweithiwr iechyd i CG.**

**Cam gweithredu:- Rhoi ystyriaeth i hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd yn ffurfio rhan o hyfforddiant cychwynol yr heddlu.**

#### **Eitem 5 Cyfarwyddeb Uwch**

Awgrymodd DT ein bod ni'n annog unigolion sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r tîm brysbennu iechyd meddwl i sefydlu cyfarwyddeb uwch. Awgrymodd y dylai'r tîm brysbennu annog unigolion i geisio eiriolwr a allai eu helpu i gwblhau cyfarwyddeb uwch.

Hysbysodd DT y grŵp ei fod yn hapus i helpu unrhyw un a oedd eisiau cwblhau cyfarwyddeb uwch. Gofynnodd i'r grŵp ddweud wrth eu ffrindiau/cydweithwyr y gallai unrhyw un sydd eisiau cymorth o ran llenwi cyfarwyddeb uwch gysylltu ag ef.

#### **Eitem 6 Gwefan newydd SCHTh.**

Hysbysodd AJ y grŵp fod SCHTh wedi lansio gwefan newydd yn ddiweddar a gofynnodd pa un ai a fyddai unrhyw un yn hoffi cael ei enwi ar y wefan. Byddai hyn yn cynnwys bywgraffiad bach i'r unigolyn.

Cadarnhaodd AL fod yr Heddlu a SCHTh yn berchen ar y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar y cyd. Cadarnhawyd y byddai'r berthynas â SCHTh yn cael ei hegluro ymhellach pan fyddai Cylch Gorchwyl y grŵp yn cael ei adolygu. Awgrymodd DT ein bod ni'n ymatal rhag anfon ein bywgraffiadau ar gyfer gwefan SCHTh hyd nes ein bod ni wedi clywed beth fydd cysylltiad SCHTh â ni.

**Cam gweithredu:- Unrhyw un sydd eisiau cael ei gynnwys ar wefan SCHTh i hysbysu MBr.**

#### **Eitem 7 Stopio a Chwilio – y ffordd newydd ymlaen.**

Nid oes adborth ar y broses graffu ddiwethaf ar gael eto. Esboniodd AL ei bod hi wrthi'n edrych ar ddatblygu proses newydd ar gyfer craffu ar stopio a chwilio a fyddai'n fwy rhyngweithiol na'r broses a ddefnyddir ar hyn o bryd. Bydd swyddog heddlu'n bresennol a rhoddir adborth yn syth.

**Cam gweithredu:- AL i ymchwilio i ffyrdd newydd o graffu ar ddigwyddiadau Stopio a Chwilio.**

## **Eitem 8 Recriwtio aelodau ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.**

Cyflwynodd AL y pecyn recriwtio newydd ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i'r grŵp. Cafwyd trafodaeth a rhoddwyd adborth i AL mewn perthynas â chynnwys y dogfennau.

**Cam Gweithredu:- Adolygu'r dogfennau recriwtio diwygiedig a'u dosbarthu ar gyfer sylwadau aelodau. Unwaith fydd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi mynd heibio, AL i gwblhau'r ddogfennaeth a chychwyn recriwtio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys.**

Cyflwynodd MRB y daflen recriwtio ddrafft i'r grŵp. Dywedodd bod angen i wybodaeth fod yn gryno a llawn gwybodaeth er mwyn denu diddordeb.

**Cam gweithredu:- Dosbarthu taflen a phoster recriwtio Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys i aelodau er mwyn caniatáu ar gyfer sylwadau. Unwaith fydd y dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi mynd heibio, AL i gwblhau'r ddogfennaeth a'i anfon ymlaen at Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys.**

## **Eitem 9 Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Dywedodd NC bod rhwystrau o ran Pobl Dduon a Lleihafri foedd Ethnig yn ymuno â'r Heddlu ac roedd eisiau i hyn gael ei ystyried yn y Cynllun. Cytunodd AL bod angen i ni nodi'r rhwystrau a sut rydyn ni'n mynd i'r afael â nhw.

Dywedodd AL bod y Coleg Plismona'n ystyried hyfforddiant rhagfarn anymwybodol ar hyn o bryd.

Dywedodd DT y dylai amcanion fod yn fwy penodol yn hytrach na nodau yn unig.

Dywedodd AL y bydd yr holl adborth yn cael ei fwydo i mewn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mai'r cam nesaf oedd i Grŵp Hyder a Chydraddoldeb yr Heddlu ddarparu mewnbyn ar yr amcanion drafft sydd wedi'u hawgrymu hyd yn hyn.

**Cam Gweithredu:- Aelodau o'r grŵp i hysbysu MBr am grwpiau rhanddeiliaid a allai fod yn rhan o ymgynghori ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol yr Heddlu.**

## **Eitem 10 Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

Cytunodd y grŵp y dylid cynnal y cyfarfod nesaf yn ystod wythnos gyntaf neu ail wythnos mis Hydref 2015.